

Gŵyl Llenyddiaeth Plant y Velvet Coalmine 2016: cyfraniad Cyngor Tref y Coed

Duon

Roedd gŵr lleol, Iain Richards - sy'n gweithio yn Llundain erbyn hyn - wedi bod yn trefnu gŵyl gerddoriaeth, llenyddiaeth a ffilm (Gŵyl y Velvet Coalmine) yn y Coed Duon ers 2 flynedd. Ar ddechrau 2016 cysylltodd â Chyngor y Dref i amlinellu ei weledigaeth o drawsnewid yr ŵyl hon yn Ŵyl Llenyddiaeth Plant, a fyddai'n para 5 diwrnod ac yn dwyn i mewn 6 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd yn y cylch. Ei obaith oedd y gallem ni gynnig cymorth o ran cyllid a threfnu. Byddai ef yn cyfrannu'n cysylltiadau a'r syniadau, ac wrth i ni ymrwymo i drefnu'n lleol byddai hynny'n ei ganiatáu i reoli'r ŵyl o Lundain wrth i ni weithio'n galed i roi ei syniadau ar waith. Cytunwyd ein bod yn ymgymryd â'r baich o drefnu. Yr un mor hanfodol oedd ein cytundeb i warantu cyllid am gyfnod o 3 blynedd a fyddai'n rhoi cyfle iddo yntau chwilio am ffynonellau cyllid eraill i'r ŵyl.

Er na fu i bopeth fynd fel wats, roedd yr ysgolion wrth eu boddau â'r gweithdai creadigol mewn ysgrifennu stori, barddoniaeth a cherdd yn ogystal â Sioe Wyddoniaeth. Diolch i gysylltiadau Iain, yma hefyd y cynhaliwyd lansiad cenedlaethol y llyfr 'Never such innocence' am y Rhyfel Byd Cyntaf, yng nghwmni Ifor ap Glyn (Bardd Cenedlaethol Cymru), Sophie McKeand (Bardd Plant Cenedlaethol Cymru) a ddarllenodd rai o'u cerddi, ynghyd â'r Arglwyddes Lucy French, Cydlynnydd y Prosiect.

Rhoddodd y newyddiadurwr Satoshi Takehana gyfweiliad yn yr ysgol gyfun ar Gwpan Rygbi'r Byd 2019 sy'n cael ei gynnal yn Siapan. Manteisiwyd ar Ganmlwyddiant Roald Dahl i gynnal 'Diwrnod Roald Dahl' yn yr ysgolion, yn seiliedig ar ei waith; ac yn ogystal fe gynhalion ni sioe gerdd a dawnsio o'r enw '100 Voices for Roald Dahl' gyda chymorth Peter Karrie (*Phantom of the Opera*) a'i ysgol gerdd leol. Roedd y sioe mor llwyddiannus fel y bu'n rhaid i ni gynnal ail berfformiad gan fod y cyntaf wedi gwerthu allan.

Un digwyddiad a gafodd dderbyniad ardderchog oedd y gyfres o sioeau gwyddoniaeth a gyflwynwyd gan Marty Jopson (*The One Show*). Cafwyd hefyd cyfres o sgysiau hanes gan Archifau Gwent, y naill i'r ysgolion a'r llall i'r cyhoedd.

Bydd detholiad o'r gwaith a gynhyrchwyd gan yr ysgolion yn cael ei gyhoeddi mewn llyfr a fydd yn cael ei lansio yn ein Noson Gwobrau Dinesig.

Rydym wedi dechrau meddwl yn barod am syniadau ar gyfer yr ŵyl y flwyddyn nesaf. Rydym yn ystyried cael mwy o sioeau gwyddoniaeth, mwy o ysgolion yn cymryd rhan, digwyddiadau penodol i'n ysgolion cyfrwng Cymraeg (3 cynradd ac 1 uwchradd), themâu yn cysylltu chwedlau Cymraeg fel y Mabinogi a straeon ysbryd fel llyfr Edmund Jones neu hyd yn oed gwaith Arthur Machen, â chwricwlwm yr ysgolion gan greu thema gyffredinol i'r wythnos.

Gyda chyfraniad ariannol cymharol fach a llawer iawn o waith caled gan ychydig o unigolion, teimlwn ein bod wedi dechrau sefydlu gŵyl a fydd yn tyfu ac yn datblygu i fod yn ddigwyddiad blynyddol o bwys i'n cymuned. Rydym wrthi'n ystyried sut y gallwn ehangu a chynyddu'n cefnogaeth ar gyfer y dyfodol.